

## QUARRELL, THOMAS (bu farw 1709), pregethwr, Bedyddiwr rhydd-gymunol

**Enw:** Thomas Quarrell  
**Dyddiad marw:** 1709  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** pregethwr, Bedyddiwr rhydd-gymunol  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Richards

Tybir ei fod ef o'r un teulu â gŵr cyntaf gwraig gyntaf **Vavasor Powell** (Paul Quarrell oedd ei enw), **James Quarrell** o Amwythig, a'r ddau Quarrell a ymddengys yng nghofnodion eglwys Llanfyllin. Is-athro ('usher') yn ysgol Biwritanaidd Trefaldwyn ydoedd i ddechrau, a daliodd yno hyd yr Adferiad. Yn 1669 yr oedd yn byw yn yr Eglwys Newydd ger Caerdydd, ac yn prysur dorri'r gyfraith drwy bregethu mewn cyfarfodydd dirgel yn Eglwysilan, Llanedern, Meirin, a Bedwas. Yn 1670 cafodd ef (a dau arall) lythyr oddi wrth **Vavasor Powell** ychydig cyn ei farw yn amgau rhodd fechan o arian. Yn 1672, ar 25 Gorffennaf, cafodd drwydded i bregethu yn nhŷ John Maurice yn Shirenewton; yn 1675 rhydd **Henry Maurice** yn ei adroddiad le pur amlwg i Quarrell ymhlith Ymneilltuwyr Mynwy. Y mae'n eglur oddi wrth eiriau **Maurice** mai Bedyddiwr ydoedd, rhydd-gymunwr, bugail preiddiau y **William Thomas** a fu farw yn 1671, gyda'i fan canolog yn Llantrisant. Cynrychioliod ef a'i eglwys eang yng nghymanfa fawr Llundain yn 1689, cymanfa yn agored i Fedyddwyr rhydd a chaeth. Bu farw yn 1709.

### Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

*Lambeth Manuscripts* 639 (187-8), 972 (67-8)  
*Calendar of State Papers, Domestic Series*, Chas. II, E.B., 38 A, 209  
*Broadmead Records* (1847, 1865), Add. B, 516  
*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, ii, 399, 445-6  
[ *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 260  
R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 70-2]

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734522](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywdd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Richards, T., (1953). QUARRELL, THOMAS (bu farw 1709), pregethwr, Bedyddiwr rhydd-gymunol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-QUAR-THO-1709>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government